# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 25
GORFFENNAF/AWST 2009

Sut fyddwch chi'n hoffi ystyried yr Arglwydd Iesu? Ai fel Gwaredwr, Iachawdwr, Bugail, neu Athro efallai? Neu a yw hi'n well gennych feddwl amdano fel y Meddyg Da, y Wir Winwydden, Bara'r Bywyd neu'r Alffa a'r Omega, sef y dechrau a'r diwedd? Yn y Testament Newydd fe ddisgrifir yr Iesu mewn sawl ffordd wahanol er mwyn dangos inni gylch eang ei bersonoliaeth a'i weinidogaeth, ond efallai mai un o'r disgrifiadau hyfrytaf a mwyaf syml a geir ohono yw fel cyfaill neu ffrind.

Mae ffrind da yn werth y byd ac nid oes dim byd gwell na rhannu atgofion dros glawdd yr ardd neu dros baned o goffi. Ni ellir rhwystro gwir gyfeillgarwch. Yn wir, fe all sawl blwyddyn fynd heibio ers i chi weld eich cyfaill ddiwethaf ond nid oes rhaid i hynny effeithio dim ar y berthynas gadarn a sefydlwyd rhyngoch. Eto i gyd, y mae hyd yn oed y ffrind pennaf yn medru ein siomi ar brydiau: ambell waith fe fydd yn rhy brysur i gael sgwrs, neu fe fydd yn ein bradychu drwy ddatgelu cyfrinach mynwesol. Yn wir fe all hyd yn oed y ffrind gorau fod yn ddigon cyfnewidiol a beirniadol.
Ond nid felly'r Arglwydd Iesu !

Y mae Hwn yn gyfaill sydd ar gael inni bob amser. Nid yw fyth yn rhy brysur i wrando arnom. Nid yw'r ystafell weddi byth ar glo ganddo ac y mae pob cyfrinach yn gwbl ddiogel yn ei feddiant. Y mae yno ar ein cyfer yn ddi-ffael ac nid yw'n mynd ar ei wyliau nac ychwaith yn cysgu'r nos. Y mae'n gyfaill sydd bob amser yn barod i gydymdeimlo â ni. Pan fyddwn yn teimlo'n drist, y mae'n dymuno bod yn rhan o'n tristwch a phan fyddwn yn llawenhau, y mae'n barod i rannu yn ein gorfoledd. Pan fyddwn mewn cyfyng gyngor y mae'n sefyll gyda ni yn amyneddgar ac yn cynnig arweiniad cadarn. Mae'n gyfaill hefyd sydd yn barod i gydymdeimlo â ni, hyd yn oed os byddwn wedi gwneud cawl o bethau a ninnau yn gwybod yn iawn mai ni sydd ar fai. Nid yw'r cyfaill hwn byth yn ein condemnio. Gŵyr yr Arglwydd Iesu yn iawn am ein beiau a'n gwendidau, ond gwell ganddo Ef ganolbwyntio ar ein cryfderau a'n hannog i wneud ein gorau. Y mae'n gyson ei gymeriad a'i gariad, ac yn ei ofal a'i gonsyrn trosom.

Y mae un peth arall i'w gofio am y cyfaill arbennig hwn. Fe aberthodd Ef ei fywyd trosom ar Galfaria ac am hynny diolchwn amdano:

Un a gefais imi'n gyfaill,
pwy fel efe!
Hwn a gâr yn fwy nag eraill,
pwy fel efe!
Cyfnewidiol ydyw dynion
a siomedig yw cyfeillion
hwn a bery byth yn ffyddlon,
pwy fel efe!

Marianne Nunn (*efel*. Pedr Fardd)

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

**CALENDR GORFFENNAF/AWST 2009**

| | | |
|---|---|---|
| 5 Gorffennaf , 2.00 | Oedfa yn Salem, Llanbedr | |
| 12 Gorffennaf ,10.30 | Oedfa Deuluol Gweinidog | |
| 19 Gorffennaf,2.30 | Oedfa am yr Amgylchfyd | Gofal y Te : Glenys M a Janice |
| 26 Gorffennaf, 10.30 | Oedfa Gymun | Bwrdd y Cymun : William a Glenys |
| 2 Awst 10.00 a 6.00<br>Oedfa Unedig : Morfa<br>Oedfa o dan ofal y Gweinidog yn yr ysbyty am 3.00 | Dr Terry Edwards | |
| 9 Awst 10.00 a 6.00<br>Oedfa Unedig : Seion | Parchedig J E Wynne Davies | |
| 16 Awst 10.00 a 6.00<br>Oedfa Unedig : Bethel | Parchedig Iwan Llewelyn Jones | |
| 23 Awst 10.00 a 6.00<br>Oedfa Unedig : Morfa | Parchedig Meirion Lloyd Davies | |
| 30 Awst 10.00 a 6.00<br>Oedfa Unedig : Seion | Parchedig Felix Aubel | |
| 6 Medi 10.00 | Oedfa Gymun :Gweinidog | Bwrdd y Cymun : Angen Trefnu |

**I'CH DYDDIADUR**

6 Gorffennaf : Cinio Cymorth Cristnogol : Morfa : 12.00-1.30
8 Gorffennaf : Cinio Cymunedol
22 Gorffennaf : Cinio Cymunedol
12 Awst : Cinio Cymunedol : Horeb yn gyfrifol am weini.
26 Awst : Cinio Cymunedol
1-4 Medi : Cynhadledd Ddwyieithog Flynyddol y Senana : Prifysgol Llanbedr Pont Steffan
2 Medi : Cyfarfod Cymorth Cristnogol am 5 yng Nghanolfan San Paul
3 Medi : Os Mêts : Barbeciw
9 Medi : Cinio Cymunedol
9 Medi : Cyfarfod Blynyddol Os Mêts : Festri'r Garn am 7
7 Medi : Cinio Cymorth Cristnogol : Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon : 12.00-1.30
16 Medi : Cyfarfod Agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Hafina Clwyd am 7.30.
23 Medi : Cinio Cymunedol
23 Medi : Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad y Chwiorydd, Rhuthun am 2.00. Fe fydd Judith yn mynd i gyfarfod y prynhawn. Croeso cynnes os hoffech ymuno â hi.
23 Medi : Cyfarfod Blynyddol Cymorth Cristnogol am 7.
30 Medi : Cyfarfod Diaconiaid Bethel a Horeb ar y cyd yn Horeb am 7.
7 Hydref : Cyfarfod Diolchgarwch Horeb yng nghwmni Hawys Tomos am 7.

**LLOFFION**

**Dymuniadau gorau i:**

- Betsan, merch Angharad a Dafydd, a dorrodd ei braich yn ddiweddar. Brysia wella!
- Elin Huxtable a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 mlwydd oed ar 17 Gorffennaf.
- Mrs Williams, Glan Seilo a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 98 ar 11 Gorffennaf.
- Christine a Stuart Lloyd, Borth a fydd yn dathlu eu Priodas Berl ar 11 Medi.
- Linda Griffiths ar ryddhau CD newydd, "Storm Nos".
- Anwen a Mared a fydd yn cychwyn yn Ysgol Penweddig ym mis Medi.
- Robert Glyn, mab Merfyn a Sue Hughes sydd wedi cael swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol.

**Cinio Canol Dydd er budd yr Eglwys yn Lesotho**: Diolch i bawb o Horeb a gefnogodd y cinio canol dydd a gynhaliwyd ar ddechrau mis Mehefin ym Methel.Diolch yn arbennig i Wendy Reynolds am ddylunio'r tocynnau. Yr oedd yr elw o gwmpas £400.

**Cymorth Cristnogol** : Diolch i bawb a fu wrthi yn casglu o ddrws i ddrws yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol. Yr oedd cyfanswm casgliadau Penrhyn-coch yn £933.08.